Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd nos Fercher, 6 Tachwedd 2024, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, K. R. Jones, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, W. Price, Ms R. Roberts, Ms V. Roberts, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Mrs H. J. Mead – Dirprwy Glerc y Dref

**51. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Miss S. Fleming ac A. R. James.

**52. CADETIAID ANRHYDEDD Y MAER**

Croesawodd y Cadeirydd yr Awyr-Lefftenant Paul Roberts, Sarjant Evie Mitchell a Sarjant Orezi Onibere o Sgwadron Cadetiaid Awyr 1340 y Rhyl Squadron i'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Maer fathodynnau Cadet Anrhydedd y Maer i'r Sarjant Mitchell a'r Sarjant Onibere, a diolchodd i'r ddau ohonynt am fod gyda hi mewn digwyddiadau penodol.

**53. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A)**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Taleb Rhif: | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau / gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1900 | BT | 560.06 | Rhentu llinell ffôn a ffioedd galwadau |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol |
| 1901 | HSBC | 8.00 | Ffi bancio |
| 1902 | Cyngor Sir Ddinbych | 32,037.00 | Benthyciad SC2 – taliad 2 o 3 yn 2024/25 |
| 1903 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 8,425.73 | Cyflogau net – mis Hydref 2024 |
| 1904 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 2,959.92 | Didyniadau Talu wrth Ennill – mis Medi 2024 |
| 1905 | Cyngor Sir y Fflint – Cronfa Bensiwn Clwyd | 3,173.10 | Didyniadau pensiwn – mis Medi 2024 |
| 1848 | Siop Cyngor am Fudd-daliadau | 1,213.33 | Swyddog Apeliadau – taliad 7 o 12 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1808 | Cyngor Sir Ddinbych | 811.00 | Ardrethi Annomestig y Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, Y Rhyl – taliad 7 o 10 |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **£49,220.12** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod | 286.44 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 1 mis a aeddfedodd ar 21 Hydref 2024 | 899.51 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **£1185.95** |

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.*

**54. <u>AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)</u>**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taleb Rhif: | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1916 | WPS James Hallam Insurance | Adnewyddu'r prif bolisi yswiriant AVIVA, 1 Tachwedd 2024 - 31 Hydref 2025 | 5,476.44 |
| 1917 | WPS James Hallam Insurance | Adnewyddu'r polisi yswiriant AVIVA Damweiniau a Theithio, 1 Tachwedd 2024 – 31 Hydref 2025 | 458.99 |
| 1918a | WPS James Hallam Insurance | Adnewyddu'r polisi yswiriant archwilio'r lifft BES, 1 Tachwedd 2024 – 31 Hydref 2025 | 372.50 |
| 1918b | WPS James Hallam Insurance | Hen bolisi archwilio'r lifft BES, canslo 1 Tachwedd – 31 Mai 2025 (Nodyn credyd – bydd yn cael ei ddidynnu o daleb rhif 1918a) | (257.82) |
| 1919 | CCLL | Dau docyn i ddigwyddiad ar 23 Tachwedd 2024 | 12.00 |
| 1920 | Cyngor Sir Ddinbych | Cyfraniad ar y system camerâu teledu cylch cyfyng 2024/25 | 15,000.00 |
| 1921 | The Works | Dyddiaduron 2025 | 12.00 |
| 1922 | Archwilio Cymru | Ffi archwilio'r Datganiad Blynyddol 2023/24 | 200.00 |
| 1923 | Y Cynghorydd C. L. Williams | Hawliadau treuliad mis Gorffennaf – mis Medi 2024 | 34.65 |
| 1924 | Amazon | Cordyn a llinyn ar gyfer Sul y Cofio | 36.21 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£21,344.97** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**55. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 30 MEDI 2024 A RHAGOLYGON BLWYDDYN ARIANNOL 2024/25**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad cynnydd ar y cyd ganddo a'r Swyddpg Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn dangos y perfformiad yn erbyn y gyllideb, ac ychwanegodd fod yr adroddiad yn giplun ar sut roedd y cyfrifon yn edrych ar 30 Medi 2024, a bod nifer o daliadau wedi'u gwneud ers hynny, a bydd adroddiad amdanynt yn yr adroddiad chwarterol nesaf i'w gyflwyno ym mis Ionawr 2025.

Cynghorodd Clerc y Dref y rhagwelir gwarged o £70,778 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar 31 Mawrth 2025.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a nodi'r amrywiadau allweddol.*

**56. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU MIS EBRILL – MIS MEDI 2024**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr adroddiad ar y cyd gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), a oedd eto yn giplun o fuddsoddiadau'r Cyngor ar 30 Medi 2024, wnaeth gynhyrchu £5,667. Rhagfynegir £1,600 yn ychwanegol dros weddill y flwyddyn ariannol.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**57. CAIS I WNEUD CYFLWYNIAD I'R CYNGOR – MIND DYFFRYN CLWYD**

Hysbysodd Clerc y Dref am gais gan Ms D. Holmes Langstone o Mind Dyffryn Clwyd i roi cyflwyniad i'r Cyngor ar fenter ar y cyd arfaethedig er budd trigolion y Rhyl.

Awgrymodd Clerc y Dref efallai y byddai'r aelodau'n dymuno ymweld â Mind yn Ffordd y Morfa yn lle, gan y byddai'n rhai misoedd cyn y gellid rhoi lle ar yr agenda i Ms Holmes Langstone.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn trefnu amser i'r aelodau ymweld â Mind.*

**58. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**59. Y SEFYDLIAD: GWEITHREDU CYTUNDEB TÂL Y CYD-GYNGOR CENEDLAETHOL 2024-25**

Dywedodd y Cadeirydd y cytunwyd ar y Dyfarniad Cyflog Llywodraeth Lleol erbyn hyn a gofynnodd am awdurdod yr aelodau i weithredu'r cynnydd cyflog yn weithredol o 1 Ebrill 2024 a rhoi cyfarwyddiadau i ddarparydd gwasanaeth cyflogres y Cyngor weithredu'r dyfarniad cyflog hwn.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y dyfarniad cyflog ac awdurdodi'r Cadeirydd i roi cyfarwyddiadau i weithredu'r cynnydd cyflog.*

**[Datganodd Mr G. J. Nickels a Mrs H. J. Mead fuddiant sy'n rhagfarnu yn yr eitem uchod fel cyflogeion y Cyngor, gan adael y siambr ac ni wnaethant gymryd rhan yn y trafodaethau ar yr eitem hon]**

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *ohirio'r Rheolau Sefydlog i alluogi Clerc y Dre fi ymateb fel mater o frys.*

**60. CYMORTH I GYNNAL Y TOILEDAU CYHOEDDUS**

Ymhellach i gofnod rhif 38 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Medi 2024, cyflwynodd Clerc y Dref ddiweddariad ar lafar mewn cyfrinachedd ar y trafodaeth gyda Chyngor Sir Ddinbych.

**[Datganodd y Cynghorydd B. Mellor fuddiant sy'n rhagfarnu yn yr eitem uchod oherwydd ei swydd fel Aelod Cabinet Cyngor Sir Ddinbych gyda chyfrifoldeb am doiledau cyhoeddus fel rhan o'i bortffolio, a gadawodd y cyfarfod, heb gymryd rhan yn y trafodaethau na'r pleidleisio ar yr eitem hon.]**

**61. DIWEDDU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Cadeirydd: …………………………

Dyddiad: ……………….…………